# 23 CÂN YR YSBRYDION

## (*THE SONG OF THE SPECTRES*)




2. 'Roedd Wil a Lewys Leyshon
Yn gwella bachau crochon,
A Siorsi Wil a Sioni Sam
Yn siarad am ysbrydion.
Sing di-wac . . .

3. Yn sôn am Wrach y Rhibyn,
Y Tylwyth Teg a'r Goblyn,
A rhyw gyhyraeth drwg ei nad
A gadwai'r wlad mewn dychryn.
Sing di-wac . . .

4. Daeth Wiliam Puw o'r Felin
A Nel i mewn dan chwerthin
Wrth sôn am ysbryd Mari Mwm
Yn dilyn Twm Penderyn.
Sing di-wac . . .

5. Fe welwyd ysbryd milgi
Ar ael y bryn yn croesi,
Ac ysbryd gwas y Gelli Thorn
Ag ysbryd corn yn canu.
Sing di-wac . . .

6. 'Roedd ysbryd cathau'n mewian,
Ac ysbryd ieir yn crecian,
Ac ysbryd morwyn Siorsi Wil
Yn chwyrnu 'nghil y pentan.
Sing di-wac . . .

7. 'Roedd ysbryd Siân yn cribo
A nyddu dan ei dwylo,
Ac ysbryd *Georgie* bach *Penhill*,
Ac ysbryd Wil yn siafo.
Sing di-wac . . .

8. 'Roedd ysbryd Bilo'r Bwtsiwr
Yn croesi pont Caslwchwr
Yn peri dychryn i'r holl wlad
Wrth ddilyn Deio'r Badwr.
Sing di-wac . . .

9. Mae weithiau ysbryd angladd—
Y mawr a'r bach yn gydradd—
Ac ysbryd moch yn cadw sŵn,
Ac ysbryd cŵn yn ymladd.
Sing di-wac . . .

10. Ac ysbryd gwraig mewn urddas
Yn prynu ysbryd canfas;
Ac ysbryd plân a bwyell sa(e)r,
Ac ysbryd sgwâr a chwmpas.
Sing di-wac . . .

11. Ac ysbryd rhai yn cychwyn
I wneuthur ysbryd coffin,
Ynghydag ysbryd hir ei gam
Yn rhedeg am y cortyn.
Sing di-wac . . .

Tâp AWC 635. Recordiwyd (Penillion 1–3 a 5–8 yn unig) 14.2.64 gan Mrs. Edith Edwards (g. 1881), Neuadd-wen, Ystradgynlais, sir Frycheiniog. Pan oedd EE yn blentyn ar fferm ei theulu yng Nglyntawe dysgodd y gân hon o glywed ei chanu gan ei thad, brodor o Lyntawe.